

Cofnodion

7fed Chwefror, 2019

Preseanol: Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Susan Davies, Dilys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams. Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** y Cynghorwyr gan y Maer, a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhys Evans, Tony Parry a Edith Roberts. Cydymdeimlwyd gydag Edith Roberts yn ei phrofedigaeth ddiweddar.
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant ym mater dyrannu arian i fudiadau lleol, gan Sharon Evans ac Eluned Jones.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 10/1/19.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. Glanhau lloches - er ceisio cael 3 phris gan lanhawyr lleol, dim ond un sydd wedi dod i law; ceisir eto i gael prisiau am y gwaith. Yn y cyfamser, gofynnwyd i un contractwr lanhau'r lloches tu allan i'r Eglwys Gatholig yn fuan iawn.
 - ii. Railings Heol Arennig - derbyniwyd neges gan Swyddog Cyngor Gwynedd bod y railings wedi cael eu diogelu.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, y Cynghorydd Sir. Dywedodd ei fod wedi ymweld ag ystadau Blaenddol a Chysgod y Coleg yng nghwmni John Caradog Williams ac wedi gallu ymateb i rai materion yno. Bydd yn trafod lleoliad mainc wrth Blaenddol gyda swyddogion pan fydd y tywydd yn fwy ffafriol. Mae hefyd wedi cysylltu gyda'r swyddogion am bafin anwastad yn Heol Tegid. Adroddodd fod gwaith paratoi tuag at agor Ysgol Godre'r Berwyn yn mynd yn ei flaen ac y disgwylir mwy o offer i Theatr Derec Williams yn fuan. Cynhaliwyd noson agoriadol lwyddiannus iawn yng nghwmni Tudur Owen yn ddiweddar. Roedd yn hynod falch o dderbyn cadarnhad fod Llwybr y Sgotwyr ar lan afon Tryweryn (tu nol i Blaenddol) wedi ei nodi yn Llwybr Cyhoeddus.
6. **Toiledau Cyhoeddus:** Adroddodd y Clerc am gyfarfod y mynychodd gydag aelodau o Bartneriaeth Penllyn a swyddogion Cyngor Gwynedd. Cytunwyd ar ddrafft o gynllun i drosglwyddo gofal am y toiledau i Bartneriaeth Penllyn gyda'r gobaith o leihau'r costau. Trafodwyd ffyrdd o ariannu hyn.
7. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd cais NP5/53/422C Bron y Graig, sef cais i adeiladu dau dŷ ar wahân ar y tir.

8. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a chytunwyd i wneud y taliadau arferol.
- ii. Cyfraniadau blynyddol: derbyniwyd ceisiadau cymwys a mantolenni, a chytunwyd i ddyrannu fel a ganlyn: Canolfan y Plase £150; Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Y Bala a Phenllyn £1,000; Teulu'r Berwyn £400; Cymdeithas Genweirio - adran Clymu Plu'r Ieuenctid £300; Eisteddfod Gylch yr Urdd £200; Maes Chwarae Stryd y Castell £300; Llên y Llannau £50; Clocswyr Tegid £150; Tîm Achub a Chwilio De Eryri £400; Clwb Hoci'r Bala £150; Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieucanc Meirionnydd £500; Theatr Bara Caws £150; Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy £100.

9. Gohebiaeth:

- i. Derbyniwyd neges gan Gareth Evans, British Triathlon, yn cadarnhau y cynhelir Triathlon Y Bala (Bala Big Bash) ar benwythnos olaf Mehefin 2019, ynghyd â sicrwydd am fesurau rheoli traffig er budd yr ardal leol.
 - ii. Derbyniwyd copi o Gorchymyn Diwygio Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod Llwybr Troed Rhif 11 (Llwybr y Sgotwyr) yn Lwybr Cyhoeddus traddodiadol.
10. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad fod y cais am grantiau i adnewyddu'r llawr uchaf ar fin cael eu cwblhau. Er bod prysurdeb mawr yng Nghanolfan Henblas, y dymuniad ydyw i ddatblygu'r ochr lles ymhellach. I'r perwyl, fe fydd mudiadau lles yn cynnal sesiwn agored yno ar 22/2/19 rhwng 10.00 a 2.00. Cytunodd Ivora Jones ac Eluned Jones i gynrychioli'r Cyngor yno.
11. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr a diolchwyd iddi am fonitro'r asedau.
12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Eglurwyd nad oes digon o le i barcio yn yr Orsaf Dân a chanlyniad hyn yw bod gwirfoddolwyr yn cael eu dirwyo am barcio ym maes parcio'r Grîn. Cytunwyd i lunio llythyr o gefnogaeth i'r Gwasanaeth Tân Gwirfoddol lleol, yn gofyn i Gyngor Gwynedd naill ai dynodi 4 safle parcio ym maes parcio'r Grîn i'r gwirfoddolwyr, neu i roi "pass" swyddogol iddynt barcio am ddim pan fyddant wedi cael eu galw allan mewn argyfwng neu pan fyddant yn ymarfer.

Amser gorffen: 8.30pm